CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn Neuadd y Cwrwgl, Llechryd nos Lun 6 Mehefin 2016**

,
**Presennol:** Cadeirydd: Cyng Gareth Evans. Cyngr: Mrs Amanda Edwards, Peter Hazzelby, Colin Lewis, Ken Symmons, Mrs Kay Morgan, Bryan Rees, Mrs Eleri Davies, Iwan Davies, Hywel Davies

CS H Lewis

Clerc

Aelodau'r Cyhoedd: Neb

**1. Croeso ac Ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Cyngor ym mis Mehefin. Llofnododd y Cyng B Rees ei ddatganiad derbyn swydd Is-gadeirydd. Tystiwyd i hyn gan y Clerc

Roedd y Cyng Mrs J Hawkes wedi anfon i ymddiheuro.

**2. Gweddi Agoriadol**

**3. Datgelu Buddiannau Personol**

Dim

**4. Materion Personol**

Dywedodd y Cyng B Rees y byddai ef a'r Cyng I Davies yn cymryd rhan yn yr ymgais i drechu record y byd am redeg ras gyfnewid o gwmpas arfordir Prydain. Byddent yn rhedeg am 10pm ar 16 Gorffennaf. Canmolodd y Cadeirydd nhw am eu hymdrech.

Soniwyd bod gwraig y CS H Lewis wedi bod yn anhwylus ac y byddai cerdyn yn cael ei hanfon ati.

**5. Ceisiadau Cynllunio**

Nid oedd dim ceisiadau cynllunio wedi eu cyflwyno i'w hystyried.

Papurau i'r pwyllgor rheoli datblygiad – nodwyd.

**6. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Mae'r Clerc wedi defnyddio cod lliw ar gyfer cofnodion y cyfarfod blaenorol i ddangos pa eitemau a oedd ar yr agenda gyfredol, pa rai oedd yn parhau a pha rai oedd wedi eu cwblhau. Cytunwyd i roi cynnig ar y drefn hon.

Gofynnodd y Cyng C Lewis am i sillafiad y gair 'enrol' gael ei newid ar dudalen 235.

Yna cynigiodd y Cyng C Lewis y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir ac eiliwyd gan y Cyng A Edwards, a chytunodd pawb.

**7. Materion yn Codi**

Soniodd y Cyng B Rees fod y borfa'n hir o gwmpas adeilad y Mileniwm.
GWEITHREDU: Cysylltu â chontractiwr cynnal a chadw'r tir GAN: Y Clerc

Dywedodd y Cadeirydd iddo fod yn Seremoni Sefydlu'r Maer a'r Gwasanaeth Dinesig yn Aberteifi a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Ceredigion (CSC) ar ran y Cyngor.

Gofynnodd y Cyng B Rees a fyddai'n briodol gosod y 'Plac Coffa' ar fur yr Eglwys. Cytunodd pawb.

**8. Cyllid a Gweinyddu**

*Taliadau Misol*

| | Talai | Am | banc | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 6.06.16 | Cyng G Evans | Lwfans y Cadeirydd 16.17 | 350.00 | | |
| | Digwyddiadau Cymunedol Pentref Llec | Rhodd | 250.00 | | |
| | Aon UK Ltd | Yswiriant 16.17 | 1,274.30 | | (Eglwys i ddilyn?) |
| | J Jamison | Archwiliad Mewnol | 60.00 | | |
| | Abacus Clenaing Services | Glanhau'r Toiled Cyhoeddus a'r Gysgodfan | 246.00 | | |
| | Telemat | Llwytho meddalwedd | 30.00 | | |
| | S E Houghton | Gwahaniaeth yn y gyflog: newid cod treth | 62.20 | | |
| | S E Houghton | Swyddfa yn y cartref | 25.00 | | |
| 30.06.16 | S E Houghton | Cyflog Mehefin | 311.54 | AS | |
| | | | 2,609.04 | | |

Trafodwyd yr yswiriant ar sail gwybodaeth a oedd wedi'i darparu gan y cwmni yswiriant. Erbyn hyn roedd yn amlwg nad oedd yr Eglwys a mur yr Eglwys wedi'u cynnwys yn yswiriant yr adeilad. Ar ôl trafod cytunwyd na fyddai yswiriant felly'n cael ei drefnu. Penderfynwyd y dylai'r Clerc gysylltu â'r Eglwys yng Nghymru gan mai hi, yn ôl y brydles, oedd yn gyfrifol am henebion ac ymylon yn y fynwent. Byddai'n gofyn pa ddarpariaeth oedd wedi'i gwneud ar gyfer diogelwch.
GWEITHREDU: Cysylltu â'r Eglwys yng Nghymru GAN: Y Clerc

Dywedodd y Clerc nad oedd wedi newid yr Archeb Sefydlog ar gyfer cyflog y Clerc gan fod gwybodaeth wedi cyrraedd am y Cytundeb Cyflog Cenedlaethol. Cytunwyd i weithredu'r codiad fel yr argymhellwyd i £8.717 am SCP wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2016. Cytunwyd hefyd i gais y Clerc i'r cyfnod gwyliau gyd-fynd â'r flwyddyn ariannol.
Cynigiwyd: Cyng E Davies, eiliwyd Cyng Mrs K Morgan, cytunwyd yn unfrydol.

*Cerdyn*
Roedd y banc wedi cadarnhau y gellid cael cerdyn debyd ar y cyfrif. Cadarnhaodd y Cyngor y dylai'r Clerc wneud cais ar ran y Cyngor.
GWEITHREDU: Gwneud cais am gerdyn GAN: Y Clerc

*Diweddaraf am y gyllideb (wedi'i anfon o gwmpas cyn y cyfarfod*)
Nodwyd.

*I adrodd ar HMRC / PAYE*
Roedd y Clerc wedi cysylltu â Ms Quinnell i ofyn am oedd ganddi ragor o wybodaeth.

*Diwedd y flwyddyn*
Gofynnodd y Clerc i'r Cyngor gadarnhau'r adroddiadau cyfrifo (wedi'u hanfon o gwmpas yn y cyfarfod blaenorol), cadarnhau'r gofrestr asedion (wedi'i hanfon o gwmpas yn y cyfarfod) a nodi adroddiad yr archwilydd. Darllenwyd pob eitem yn yr Adroddiad Llywodraethiant blynyddol yn y cyfarfod a'u cytuno.
Gofynnodd y Clerc i'r Cyngor nodi bod ffigurau'r llynedd wedi'u cofnodi eto oherwydd gwall ysgrifenyddol yn y ffigur a ddarparwyd ar gyfer y gofrestr asedion. Dywedodd y Clerc y byddai'n cynnwys llythyron esbonio lle oedd angen.
Cynigiwyd yr Adroddiad Blynyddol i'w gymeradwyo gan y Cyng C Lewis, eiliwyd gan y Cyng P Hazzelby, cytunwyd yn unfrydol.
Tystiodd y Cadeirydd a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol i'r Adroddiad Blynyddol a phob dalen o wybodaeth gefnogi.

*Gwefan*
Roedd y diweddariadau sylfaenol wedi'u cwblhau. Byddai gwaith pellach yn cael ei wneud i wella'r safle. Cytunwyd y dylid manteisio ar ddiddordeb yr Archifau Cenedlaethol yn archifo'r wefan pan fyddai'r wefan wedi'i datblygu'n iawn.

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
Roedd Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ceredigion (CSC) wedi ymateb ar nifer o faterion a oedd wedi'u codi gan y Cyngor ynglŷn â llifogydd wrth ymyl Cardi Building Supplies, niwed i'r mur gyferbyn â Cilgerran TVs (cyfrifoldeb y perchnogion oedd y ddau fater), a niwed posibl i'r bont gyferbyn â'r Seven Stars. Cytunwyd i gadw llygad i sicrhau bod CSC yn mynd ar ôl y materion hyn.

Roedd adroddiad wedi'i anfon am y niwed i'r brif bont a neges e-bost wedi'i hanfon, ond nid oedd dim gwybodaeth wedi dod oddi wrth CSC am waith trwsio.

Dywedodd y Clerc y byddai cynrychiolwyr Dŵr Cymru yn dod i gyfarfod mis Gorffennaf i ddweud wrth y Cyngor am waith a oedd i ddigwydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**10. Amwynderau**
*Parc Ceir / Hawl Tramwy*
Roedd y Cyng P Hazzelby a'r Cyng Mrs A Edwards wedi trefnu ailargraffu'r llyfrau am y neuadd a'r caeau chwarae. Rhoddwyd copi i bob un o'r Cynghorwyr a gofynnwyd iddyn nhw eu dychwelyd pe baent yn gadael y Cyngor yn y dyfodol. Byddai'r Clerc yn cadw copïau dros ben. Diolchwyd i'r ddau Gynghorydd am eu gwaith.
GWEITHREDU: Dilyn unrhyw wybodaeth a ddaw GAN: Y Clerc

*Elusen*
Roedd gwybodaeth ryddhau oddi wrth Fwrdd Safonau CSC wedi'i hanfon o gwmpas i bawb. Esboniodd y Clerc ymhellach fater posibl buddiant rhagfarnol a allai godi fel Cynghorydd ac Ymddiriedolwr. Byddai hi'n barod i drafod y mater gydag unrhyw un o'r Cynghorwyr. Nid oedd y Comisiwn Elusennau eto wedi ymateb i'r cwestiwn sut i symud y mater yn ei flaen. Roedd yswirwyr y Cyngor wedi cael gwybod am y sefyllfa. . Roedd yr Archwilydd Mewnol wedi cael gwybod am y sefyllfa yn unol â chyngor Un Llais Cymru, a byddai'r Clerc yn rhoi gwybod i'r Archwilydd Allanol. Byddai CThEM yn cael gwybod pan fyddai' Comisiwn Elusennau wedi dweud beth oedd i gael ei wneud. Nodwyd y byddai'r Cyngor yn parhau'r gwaith cynnal a chadw sylfaenol ac yn delio ag unrhyw faterion diogelwch.
GWEITHREDU: Dilyn y gwaith hwnnw lle oedd angen GAN: Y Clerc

*Rhestr Archwilio Meysydd Chwarae*
Ar ôl trafodaeth cytunodd y Cyng B Rees i wneud ymchwiliadau a dod ag adroddiad yn ôl i'r Clerc pe bae'n teimlo y gellid gwella'r rhestr. Byddai'r holl wybodaeth am archwiliadau, fel copi caled ynteu wedi'i sganion, yn cael ei chadw am o leiaf 10 mlynedd. Dywedodd y Cyng Mrs A Edwards fod y fainc a oedd yn rhydd wedi ei hail-gysylltu.

*Gosodiad golau Nadolig yn yr Eglwys*
Roedd y Clerc wedi dod o hyd i gyfeiriad at osodiad golau newydd yn 2012, ond cadarnhaodd mai yn yr ysgol yr oedd y rheiny.

**11. Prosiectau'n parhau**
*Gwylio Cyflymder*
Ymddiheurodd y Clerc nad oedd wedi cael y wybodaeth angenrheidiol am niferoedd a chyflymdra traffig gan CSC.
GWEITHREDU: Cael gwybodaeth GAN: Y Clerc

*Cynllunio Mewn Argyfwng*
Gohiriwyd gan fod y Cyng Mrs J Hawkes yn absennol.

*Diffibrileiddiwr*
Dywedwyd bod yr arwydd i gael ei osod ac y byddai hyfforddiant ychwanegol yn cael ei drefnu.
GWEITHREDU: Trefnu gosod arwydd yn ei le a threfnu hyfforddiant GAN: Y Cyng Mrs A Edwards

*Pentref yn ei Flodau*
Roedd y Felin Goed wedi cadarnhau y byddent yn fodlon iawn trafod darparu defnyddiau ar ôl i'r cynlluniau gwreiddiol gael eu gwneud. Roedd y Cadeirydd wedi bod yn chwilio am safleoedd posibl. Cytunodd y Cadeirydd a'r Cyngr Mrs E Davies, Mrs A Edwards a B Rees i gwrdd ar 4 Gorffennaf am 6pm y tu allan i'r Neuadd i fynd o gwmpas safleoedd posibl. Wedyn gellid trafod gwaith cynnal a chadw parhaus yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. Nodwyd cynnig caredig gwraig y Cyng C Lewis i ofalu am wely blodau pe bae'n cael ei osod yng Nglannant.

**12. Digwyddiadau**
*SLt Lawrence / Cyflwyno'r plac coffa*
Dywedodd y Cadeirydd fod y Cadetiaid Awyr lleol yn awyddus i fod yn bresennol wrth gyflwyno'r placiau. Cytunwyd, mewn cyfarfod rhwng y Cadeirydd a'r Cyngr Mrs E Davies, Mrs A Edwards a

B Rees, y byddai dyddiadau posibl yn cael eu trafod a'u cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. Byddai'r ddau blac yn cael eu gosod cyn gynted ag y byddai safleoedd ar gael.
*Marathon Lluniau - diweddariad*
Dywedodd y Cyng B Rees y byddai'r tynnu lluniau'n digwydd at 9 Gorffennaf a'r arddangosfa yn ystod penwythnos y Carnifal. Roedd wedi gwahodd Julie John, ffotograffydd lleol, i fod yn un o'r beirniaid. 'Ffotothon' fyddai teitl y digwyddiad, a byddai'r Cyng B Rees yn cydlynu gwybodaeth am reolau cystadlu a chofrestru ac yn cysylltu â'r ysgol. Nodwyd y byddai angen cyhoeddusrwydd, a chytunwyd y dylai unrhyw arian a geid gael ei roi i'r ysgol.
GWEITHREDU: Symud ymlaen GAN: Y Cyng B Rees

**13. Adroddiadau Cyfarfodydd**
Dywedodd y Cyng K Symmons fod rhywun wedi gofyn iddi a fyddai Cadeirydd y Cyngor yn mynd i gyfarfodydd Cyfeillion Ysbyty Aberteifi. Gofynnwyd iddo roi enw'r Clerc fel man cyswllt. GWEITHREDU: Rhoi manylion y Clerc GAN: Y Cyng K Symmons.

**14. Gohebiaeth + gohebiaeth e-bost**
*Gohebiaeth wedi gweithredu arni*
SBC - Trethi annomestig
Dywedodd y Clerc ei bod wedi ysgrifennu at yr AC a enwyd gan Un Llais Cymru yn eu llythyr ar y mater hwn.

*Gohebiaeth wedi'i nodi*
Gweithdy ar ddarpariaeth Tai Cymdeithasol gan CSC

Digwyddiad blynyddol Ceredigion ar y cyd, Ymwneud Cymunedol Diogelwch y Cyhoedd

Gwahoddiad Archif Gwefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Diwrnod Chwarae 2016 – Gŵyl Plant a Phobl Ifanc, Aberaeron

Cyllid i Orllewin Cymru – GWLAD

Pwyllgor Cymru Cronfa Dreftadaeth y Loteri – angen 2 aelod

**15. Cyfnewid Gwybodaeth**
Dywedodd y Cyng Mrs A Edwards ei bod yn pryderu am yr holl sbwriel a oedd yn cael ei adael wrth ymyl y banciau poteli. Ar ôl trafod cytunwyd y gallai'r Cyngor ariannu sesiwn reolaidd i gymhennu'r ardal. Awgrymwyd y gallai'r Cyngor holi Mr Harman. Dywedodd y Cyng B Rees ei fod yn deall fod Mr Harman wedi cael damwain ond y byddai'n siarad ag ef a dod ag adroddiad yn ôl i'r Cyngor. Roedd diwrnod codi sbwriel yn dal heb ei drefnu.
GWEITHREDU: Holi Mr Harman GAN: Y Cyng B Rees

Mynegwyd pryder am gyflwr byw un o'r trigolion lleol ar ôl digwyddiad pan alwyd y gwasanaeth tân i eiddo. Dywedwyd bod y preswylydd yn berson annibynnol iawn ond bod cymorth ffurfiol nawr wedi'i drefnu.

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 4.07.16 - 7.00pm**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.40pm.*